Galwodd ato'r dyrfa ynghyd â'i ddisgyblion a dywedodd wrthynt, "Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a'm canlyn i."
(Marc 8:34)

Yn yr adnod yma mae Iesu'n pwysleisio mor werthfawr yw bod yn ddisgybl iddo, a beth mae hynny'n ei olygu i ni.

Hanfodion bod yn ddisgybl

Mae'r Arglwydd Iesu fel petai'n rhoi swydd-ddisgrifiad o ddisgybl yn y geiriau hyn. Mae'n enwi tri hanfod:

Ymwadu

Mae'n dweud wrthym bod rhaid i'w ddilynwyr ffarwelio â nhw eu hunain. Ystyr hyn yw bod gennym ddewis o bwy i'w gael fel ffocws ein bywyd, sef yr Hunan neu Grist. Mae'r sawl sydd â'r Hunan yn y canol yn byw i blesio'i hunan, ei chwantau a'i holl ddymuniadau naturiol, ac mae'n dibynnu ar ei hunan i gyrraedd pob nod ac uchelgais.

Enghraifft glasurol o hyn yw'r Apostol Paul cyn ei droedigaeth. Mae'n dweud yn Philipiaid 3 ei fod wedi bod yn ymddiried yn y cnawd, sef yr hunan: ei gefndir, ei dras Hebreig a'i gyflawniadau fel Pharisead pybyr. Roedd ei hyder gynt yn tarddu ohono fe'i hunan. Bellach mae Paul wedi ffarwelio â'r hyder a'r cyfiawnder hunanganolog er mwyn **"ymfalchïo yng Nghrist Iesu".**

Codi

Yna mae'n sôn am godi'r groes. Rhaid i'r disgybl fod yn awyddus ac yn barod i'w uniaethu ei hun â Christ ym mhob sefyllfa. Sefyllfa fanteisiol a chysurus a sefyllfa anodd a phoenus hefyd. Gan fod Crist wedi ei uniaethu ei hun â ni bechaduriaid yn ei ymgnawdoliad, ei fedydd a'i groes, mae'r person sydd wedi glynu wrth Grist yn awyddus i'w uniaethu ei hun ym mhopeth gyda'i Waredwr. Fel y dywed yr emynydd:

"Mae nos a Duw yn llawer gwell
na golau ddydd a Duw ymhell."

Canlyn

Yna mae'r Arglwydd Iesu yn dweud bod rhaid ei ganlyn Ef. Mae hyn yn golygu canlyn cwrs ei fywyd yn y byd. Rhaid i ni fod yn y byd, fel y daeth Ef i'n daear

heb fod arno gywilydd ein hystyried fel ei frodyr. Rhaid i ni ddisgwyl mynd i fannau cyfyng gwawd a gwrthwynebiad o bryd i'w gilydd. Ond trwy'r amser yr ydym yn dilyn Iesu, ac yn mwynhau ei gymdeithas ar y daith, fel petae.

"Dy gael di, Iesu, gyda mi
yw'r trysor gorau sydd.
ti yw'm nod, ti yw'm rhan,
fy llawenydd i a'm cân,
ac fe'th garaf mwy."

Dyna amlinelliad da o beth yw bod yn ddisgybl i'r Arglwydd Iesu. Sut daeth Paul i fod yn ddisgybl? Anfon llythyr cais i mewn? Na, cael ei lorio a'i alw gan Grist ar y ffordd i Ddamascus. All person ddim cynhyrchu'r awydd yma ei hunan. Dydy'r awydd yma ddim mewn person yn naturiol. Gadewch i ni weddïo y bydd yr Arglwydd eto yn galw pobl ac yn plannu'r awydd yma ynddynt i fod yn ddisgyblion sydd yn ymddiried ac yn byw i Grist, ac nid i'r hunan.

Gwerth bod yn ddisgybl

Yna mae'r Arglwydd Iesu yn pwysleisio enillion bod yn ddisgybl a cholledion ei wrthod. Er mwyn gwneud hyn, mae'n nodi pedwar peth:

Cadw a cholli (ad.35). Mae'r person sydd yn gwrthod gollwng ei gyfiawnder ei hunan a'i hunan hyder yn mynd i golli ei enaid ei hun, ei fywyd ei hun, oherwydd y bydd yn colli Crist, ac felly yn colli Duw. Mae ffarwelio â'r hunan yn golygu ennill Crist trwy newyddion da yr Efengyl, ac felly arbed yr enaid.

Elwa a fforffedu (ad.36). Gan fod colli Crist yn golygu colli Duw, mae'n golygu colli popeth, colli yr enaid. Does dim ots beth fydd person yn ei gael y tu allan i Grist, boed yn gyfoeth, statws, enillion o bob math. Oherwydd wrth gael yr enillion hynny, mae wedi fforffedu Crist, ac felly wedi fforffedu diogelwch a bywyd tragwyddol i'w enaid.

Dim prynedigaeth (ad.37). Unwaith mae person yn gwrthod Crist, sut arall mae'n mynd i brynu bywyd i'w enaid? Pwy arall sy'n mynd i dalu am ei bechodau a'i fethiannau? O wrthod Iesu Grist - a'r hyn a wnaeth trosom ar y groes i brynu'n heneidiau yn rhydd o faglau a dyledion pechod – does dim arall i'w gael i'w roi'n gyfnewid, yn dâl dros ein heneidiau.

Dim Crist (ad.38). Y ddadl olaf mae Iesu'n ei defnyddio i berswadio pobl i'w dderbyn a'i ddilyn yw hon: O wrthod Crist cawn ein gwrthod gan Grist. Os daliwn ati i'r pen i ddewis troi draw oddi wrtho, fe fydd Ef yn gwneud hynny gyda ni, pan fydd yn dod nôl i'r byd yn ei ailddyfodiad a'i orseddiad amlwg fel Brenin brenhinoedd ac Arglwydd arglwyddi.